**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: KS/390/20

11 Tachwedd 2020

Annwyl Gyfaill

Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn ddigynsail. Hoffwn ddiolch yn bersonol i bob un ohonoch chi yn y gymuned fusnes am eich amynedd a'ch cydweithrediad dros gyfnod y pandemig. Dw i ddim am wneud yn fach o'r anawsterau y mae'r cyfyngiadau wedi'u hachosi ac y byddant yn parhau i'w hachosi i fusnesau wrth i ni geisio ddiogelu bywydau.

Argyfwng Covid-19 a'i effeithiau sydd wedi mynd â sylw pob un ohonom dros ran helaethaf 2020. Nid yw hynny'n syndod wrth reswm ac ni fydd pethau'n debygol o newid am beth amser eto. Felly, o gofio mor anodd fydd hi i fusnesau i ddygymod am yr hanner cant o ddiwrnodau sydd eto i fynd tan ddiwedd y cyfnod pontio, rwyf wedi penderfynu ysgrifennu atoch ger mwyn helpu'r busnesau nad ydyn nhw eto wedi paratoi'n llawn ar gyfer y newidiadau a ddaw ac a fydd yn effeithio arnyn nhw o 1 Ionawr 2021.

Ar 1 Ionawr 2021, bydd y Deyrnas Unedig yn gadael Marchnad Sengl yr UE felly ni fydd ein busnesau'n cael masnachu nwyddau a gwasanaethau'n ddirwystr mwyach â gwledydd yr UE. Dyna fydd y sefyllfa, waeth a fydd cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE neu beidio.

Rwy'n deall bod yr ansicrwydd hwn yn ei gwneud hi'n anodd paratoi ar gyfer y newid ond rydym eisoes yn gwybod y bydd rhai pethau'n wahanol a bod pethau y gallwn eu gwneud nawr i'n helpu i baratoi.

Mae Llywodraeth y DU wedi llunio traciwr fydd yn rhestru'r camau y dylai'ch busnes chi eu cymryd. Gallwch gofrestru hefyd am ddiweddariadau dros yr e-bost gan yr HMRC fydd yn rhoi gwybod ichi am newidiadau wrth iddyn nhw ddigwydd.

**Porth Cyfnod Pontio'r UE - Busnes Cymru**

Mae Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru yn rhoi cyngor ac arweiniad i fusnesau sy'n paratoi ar gyfer y newid yn Ewrop ac mae'n cynnwys dolenni i Ymgyrch Gwybodaeth Gyhoeddus Llywodraeth y DU a ddechreuodd ar 13 Gorffennaf 2020. Byddwn yn defnyddio gwefan Busnes Cymru i gadw'ch bys ar y datblygiadau diweddaraf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mewnforio, Allforio a Thollau**

Anfonodd Llywodraeth y DU llythyr at bob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac sy'n masnachu â'r UE i roi crynodeb o'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud. Mae'r llythyr yn esbonio sut y dylai busnesau baratoi ar gyfer y prosesau newydd ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain a'r UE o 1 Ionawr 2021, gan gynnwys:

- Gwneud yn siŵr eu bod wedi cael rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwr Economaidd (EORI) yn y DU.

- Penderfynu sut i wneud datganiadau i'r tollau.

- Cadarnhau a oes angen datganiadau ar gyfer y nwyddau y maent yn eu mewnforio (*staged import controls*).

Ar 12 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n cyflwyno mesurau newydd ar gyfer rheoli mewnforion o'r UE i Brydain Fawr fel a ganlyn:

- fis Ionawr 2021: Bydd angen i fasnachwyr sy'n mewnforio nwyddau safonol, popeth o ddillad i nwyddau electronig, baratoi ar gyfer trefniadau sylfaenol y tollau, megis cadw cofnodion digonol am y nwyddau a fewnforir. Bydd ganddynt hyd at 6 mis i gwblhau datganiadau tollau. Er y bydd angen talu tariffau ar yr holl fewnforion, gellir gohirio eu talu tan y bydd y datganiadau tollau wedi'u gwneud. Bydd nwyddau rheoledig fel alcohol a thybaco yn gorfod cael eu harchwilio. Bydd gofyn i fusnesau ystyried sut y byddant yn cyfrif TAW ar y nwyddau y byddant yn eu mewnforio. Bydd archwiliadau ffisegol yn cael eu cynnal ym mhen y daith neu ar safle cymeradwy arall o bob anifail neu blanhigyn uchel ei risg.
- fis Ebrill 2021: Bydd angen rhoi rhaghysbysiad a chyflwyno dogfennau iechyd perthnasol ar gyfer pob cynnyrch sy'n deillio o anifail – er enghraifft cig, bwyd anifeiliaid anwes, mêl, llaeth neu gynnyrch wyau – ac ar gyfer planhigion a chynnyrch planhigion sydd wedi'u rheoleiddio.
- fis Gorffennaf 2021: Bydd masnachwyr sy'n symud unrhyw nwyddau'n gorfod cyflwyno datganiadau yn y man mewnforio a thalu'r tariffau perthnasol. Bydd angen datganiadau iechyd a datganiadau diogelwch a bydd yn rhaid cynnal mwy o archwiliadau ffisegol o nwyddau iechyd anifeiliaid a phlanhigion (SPS) a gofyn am fwy o samplau: bydd anifeiliaid, planhigion a'u cynnyrch yn cael eu harchwilio o hyn ymlaen ar safleoedd rheoli wrth ffin Prydain Fawr.

Ni fydd y trefniadau hyn yn newid, pa beth bynnag fydd canlyniad trafodaethau Llywodraeth y DU â'r UE.

Gallwch hefyd gymryd y camau canlynol nawr:
- Edrych a oes angen trwydded i fewnforio neu allforio'ch nwyddau neu a fydd y gofynion labelu neu farcio'n newid.
- Bwrw golwg ar 'godau'ch nwyddau' a gofalu'ch bod yn defnyddio'r rhai cywir. Bydd hynny'n osgoi oedi wrth y ffin ac yn sicrhau'ch bod yn talu'r tollau cywir.
- Sicrhau bod Incoterms® yn cael eu trafod wrth ichi negodi'ch contractau i osgoi unrhyw arafwch wrth y ffin. Dyma'r telerau safonol rhyngwladol a ddefnyddir mewn contractau sy'n diffinio cyfrifoldebau sylfaenol y partïon am nwyddau ym mhob rhan o broses eu cludo o safle'r gwerthwr i safle'r prynwr.
- Os byddwch chi'n symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, dylech gofrestru ar gyfer y Cynllun Cefnogi Masnachwyr fydd yn eich tywys trwy'r newidiadau a ddaw yn sgil Protocol Gogledd Iwerddon.
- Dylai cludwyr sy'n teithio i neu drwy'r UE geisio gwybod a oes angen trwyddedau ECMT arnynt o 1 Ionawr 2021. Y dyddiad cau ar gyfer ceisio am drwydded ECMT ar gyfer 2021

yw 20 Tachwedd 2020. Cewch fwy o wybodaeth am drwyddedau ECMT a sut i'w cael yma.

Mae Llywodraeth Cymru'n gallu cynnig gwasanaeth cynghori penodol i fusnesau unigol sy'n mewnforio neu'n allforio, trwy wefan Busnes Cymru.

**Gwiriwr Tariffau**

Defnyddiwch wiriwr tariffau'r DU i weld beth fydd y tariff i fewnforio nwyddau i'r DU o 1 Ionawr 2021. Bydd yn dangos hefyd y gwahaniaeth rhwng yr hyn rydych chi'n ei dalu nawr a'r hyn y byddwch yn ei dalu o 1 Ionawr 2021. Bydd Tariff y DU ar yr holl nwyddau y byddwch yn eu mewnforio o 1 Ionawr 2021, er y ceir eithriadau.

**Data Personol**

Bydd hyn yn effeithio ar fusnesau'r DU pan fyddant yn:

- derbyn data personol oddi wrth gwmnïau tramor, gan gynnwys y rheini o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n cynnwys yr UE.
- gweithredu yn yr EEA.

Mae'r UE wedi hen sefydlu mecanwaith, sy'n seiliedig ar Benderfyniadau Digonolrwydd, sy'n caniatáu trosglwyddo data'n rhwydd i wledydd y tu allan i'r DU (gan gydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data). Ymrwymodd yr UE yn Natganiad Gwleidyddol y Comisiwn Ewropeaidd i asesu lefel ddigonolrwydd y DU cyn gynted â phosibl ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gan obeithio gallu gwneud penderfyniad digonolrwydd yn ystod y cyfnod pontio os byddai'r amodau wedi'u bodloni.

Gan nad yw bellach yn sicr a gaiff penderfyniad digonolrwydd ynghylch y DU ei wneud cyn diwedd y cyfnod pontio, dylech gymryd camau buan os ydych am wneud yn siŵr eich bod yn parhau i allu derbyn data personol o wledydd yr UE/EEA yn y dyfodol. Mae swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi paratoi canllawiau manwl sy'n esbonio beth sydd angen ichi ei wneud.

**Pobl – Dinasyddion, Mewnfudo a Symudedd Staff yr UE**
Os oes aelod o'ch teulu neu'ch staff yn dod o'r UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein, bydd angen iddynt holi a oes angen iddynt wneud cais i'r Cynllun Preswylio.

Os ydych chi'n masnachu â'r UE, mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut y gallai'r newidiadau effeithio ar eich busnes.


**HMRC**
Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn parhau â'i hymgyrch lythyrau at fasnachwyr cofrestredig TAW sy'n esbonio'r hyn sydd angen ei wneud i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Cyhoeddir pob llythyr yma a bydd mwy yn cael eu lanlwytho pan gânt eu hanfon allan bob mis.

**Grantiau**
Dysgwch ba grantiau y gallwch wneud cais amdanynt ar gyfer recriwtio, hyfforddi a gwella'ch TG os oes angen i'ch busnes lenwi datganiadau tollau.

Rwy'n cydnabod ei bod yn gyfnod anodd i fusnesau ac mae'r galw mawr am y gwerth £100m o Grantiau Datblygu Busnes sydd ar gael fel rhan o drydydd cam ein Cronfa

Cydnerthu Economaidd ond yn ategu hynny. Er y bu'n rhaid cau'r broses ymgeisio ar gyfer y grantiau hyn oherwydd y nifer fawr o geisiadau a dderbyniwyd, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyllid, wedi neilltuo cyllid ar gyfer pedwerydd cam y Gronfa Cydnerthu Economaidd i gefnogi busnesau a gweithwyr. Yr ydym wrthi'n datblygu mecanwaith i fusnesau fynegi diddordeb yn y gronfa honno yn yr wythnosau nesaf a chyhoeddir yr wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Busnes Cymru.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales